**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG GYNHALIWYD YN Y NEUADD 6 CHWEFROR 2025 AM 7.30YH**

**1. Yn bresennol:** Y Cyng Nicola Jones (Cadeirydd), Janet Knott, Philip Davies, Jenny Jones, Eifion Jones, Elfyn Williams, Rheinallt Jones, Cynghorydd Sir Tyssul Evans ac Arfon Davies (Clerc).

**Ymddiheuriadau**: Y Cyng Meinir James, Carys Thomas a Viv Davies

Llongyfarchwyd y Cyng Carys Thomas ar enedigaeth ei merch. Nodwyd bod y Cynghorydd Thomas felly ar gyfnod mamolaeth a derbyniwyd ymddiheuriadau am gyfarfodydd y Cyngor o ganlyniad. Cymeradwywyd prynu rhodd taleb gwerth £20.

Nodwyd bod y Cyng Viv Davies wedi ymddiheuro am y cyfarfod gyda'i gyfnod o 6 mis yn agosau. Cytunwyd i dderbyn yr ymddiheuriadau am fis arall gyda'r Clerc i drafod y posibilrwydd o fynychu cyfarfodydd o bell eto gyda'r Cyng Davies.

Nododd y Cadeirydd y profedigaethau diweddar yn y Gymuned a mynegodd gydymdeimlad dwysaf y Cyngor â'r teuluoedd. Cafwyd munud o dawelwch yn eu cof.

**2. Datganiadau Diddordeb**

Dim datganiadau.

**3. Cyfranogiad gan y Cyhoedd**
Nodwyd nad oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar yr achlysur hyn.

**4. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 9$^{fed}$ Ionawr 2025.**

**5. Materion yn Codi**

1. **Cais cynllunio, PL/02147 mewn eiddo yn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth –** Penderfyniad yr Arolygwr Cynllunio oedd Dileu'r Rhybudd Gorfodaeth gan nad oedd wedi ymdrin â graddau llawn y tramgwyddau cynllunio posibl. Roedd cyfle felly ar gael i'r Cyngor Sir gyflwyno hysbysiad gorfodi newydd. Roedd hyn nawr i'w ystyried. Nodwyd.
2. **Pryderon yn ymwneud â pharcio ar linellau melyn dwbl yn Llandyfaelog –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
3. **FC29/4 Pentrepoeth** – Cafwyd cadarnhad bod drafft terfynol y cytundeb cyfreithiol yn ei le ac y byddai'n cael ei ddarparu i'r tirfeddianwyr i'w gymeradwyo er mwyn caniatáu gosod y dodrefn newydd. Nodwyd.
4. **Materion Gorfodaeth Cynllunio caeau yn Idole –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
5. **Grid Cenedlaethol** – **Is-orsaf yn Ardal Llandyfaelog –** Roedd gwaith ymchwilio pellach wedi'i wneud gan y datblygwr arfaethedig yn ystod mis Ionawr, gan arwain at oedi ar briffordd yr A484 yn Upland Arms. Nodwyd.
6. **Materion diogelwch ffyrdd ym Mancycapel –** Derbyniwyd cadarnhad bod yr Heddlu yn gefnogol i ardal beidio â goddiweddyd yn y lleoliad hwn gydag ymgynghoriad pellach i'w gynnal ar y mater. Nodwyd.

7. **Cadwyn Cadeirydd y Cyngor** – Parhaodd y Clerc i geisio prisiau bathodynnau enw newydd ar gyfer y Gadwyn.
8. **Torri coed yng Nghroesyceiliog - FC 29 4/1 a 4/2 –** Derbyniwyd cadarnhad bod y Cyngor Sir wedi ysgrifennu at berchennog y tir mewn perthynas â'r goeden oedd wedi disgyn a disgwylir ymateb. Nodwyd.
9. **Cynigion cyfyngiadau aros ar gyfer Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin –** Cafwyd cadarnhad bod cyfarfod yr Aelod Cabinet wedi'i gynnal gyda gwrthwynebiadau'r Cyngor wedi'u nodi a bod y gorchymyn yn mynd rhagddo. Roedd cais wedi ei wneud am ymatebion i ymholiadau'r Cyngor Cymuned ar y mater ac roedd wybodaeth bellach yn cael eu aros amdano.
10. **PL/04973** - **1-4 Gelligaeros Trading Estate, Cwmffrwd, Caerfyrddin, SA32 8DJ** - Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
11. **Prosiect Plannu Cennin Pedr** – Roedd plannu coed wedi'i gwblhau yng Nghae Idole. Nodwyd bod y cennin pedr yn tyfu'n dda o amgylch y Gymuned. Nodwyd.
12. **Maesglasnant, Cwmffrwd** – Nodwyd bod y mater wedi mynd o flaen y Llys ym mis Ionawr gydag arhosiad yn ei le tan fis Mehefin. Nodwyd.
13. **Pryderon ynghylch cyflymder traffig o Pibwrlwyd yng Nghyffordd Heol Bolahaul** – Cynghorwyd y cyngor i godi'r mater gyda'r Tîm GanBwyll. Roedd y Clerc wedi cysylltu ar y mater ac yn aros am ymateb.
14. **Goleuadau llwybr troed yn Llandyfaelog** – Roedd y Cyngor Sir wedi cadarnhau ceisiadau am waith atgyweirio. Bydd y mater yn cael ei ddilyn gan fod disgwyl cwblhau.
15. **Cŵn strae yn Idole** – Parhaodd y mater i gael ei fonitro. Nodwyd digwyddiad y diwrnod cynt gyda ci yn croesi'r ffordd yn Idole gan achosi i gerbydau dorri.
16. **Pyllau dŵr rhwng cyffordd yr A484 (Idole) a Chroesyceiliog** – Adroddwyd bod gwaith wedi ei wneud a'r gobaith oedd lliniaru'r problemau. Nodwyd.
17. **Arwydd 50mya ar yr A484 yn Cherry Trees –** Bydd y mater yn cael ei ddilyn am ddiweddariad.
18. **Marciau ffordd 30mya yn Llandyfaelog -** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
19. **Materion llifogydd yn Heol y Lan –** Nodwyd bod y tirfeddiannwr lleol, trigolion a'r Cyngor Sir wedi cario allan gwaith yn yr ardal. Nodwyd.
20. **Gwter wedi'i flocio yng Nghilfeithy Uchaf –** Roedd ymchwiliad wedi cael ei wneud i'r gwter a nodwyd pibell wedi cwympo. Nodwyd.
21. **Bin wedi difrodi yn Fferm Capel –** Adroddwyd ar y bin a disgwylir ymateb.
22. **Perygl baglu gan ceblau ar y palmant gyferbyn â Power Cut yng Nghwmffrwd -** Nodwyd yr ymdriniwyd â'r mater.
23. **Mainc Pibwrlwyd –** Cadarnhawyd bod y fainc yn ddiogel. Nodwyd.

**6. Gohebiaeth**

1. **Un Llais Cymru –** Dogfen Enwebiadau Gwobrau Cenedlaethol. Nodwyd.
2. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Ymgynghoriad ar Gyllideb 2025-26. Nodwyd.
3. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Gwybodaeth am y Fforwm Sirol a gynhaliwyd ar 22ain Ionawr 2025. Derbyniwyd adroddiad o'r cyfarfod wrth y Cadeirydd.

4. **Un Llais Cymru –** Gwybodaeth am Bwyllgor Ardal Sir Gaerfyrddin a gynhaliwyd ar 22$^{ain}$ Ionawr 2025. Nodwyd.
5. **Llywodraeth Cymru –** Dyddiadau hyfforddiant Ymwybyddiaeth Asbestos. Nodwyd.
6. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Diweddariad Cynghorau Cymuned a Thref. Nodwyd.
7. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Gwybodaeth am y prosiect partneriaeth llwybrau mewn perthynas â Llwybrau Cyhoeddus a Hawliau Tramwy. Nodwyd.
8. **Heddlu Dyfed Powys –** Gwybodaeth am y Gynhadledd Plismona ar Sail Tystiolaeth i'w chynnal ar 4$^{ydd}$ Mawrth 2025. Nodwyd.
9. **Green Gen** – Cylchlythyr Cymunedol. Nodwyd.
10. **Cylch yr Iaith –** Cais i'r Cyngor ysgrifennu llythyr o gefnogaeth i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r adroddiad a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Cymunedau Cymraeg. Nodwyd.
11. **Cyngor Cymuned Llanfair Clydogau a Cellan –** Yn dilyn yr e-bost a ystyriwyd yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Tachwedd 2024, cadarnhad o gyfarfod ar y cyd yn cael ei gynnal gan Gynghorau Cymuned a Thref yr effeithiwyd arnynt gan y prosiect peilonau sy'n cael ei alw gan Gyngor Cymuned Clydogau a Cellan ar 18$^{fed}$ Chwefror. Bydd y Cadeirydd a'r Clerc yn edrych i fynychu.
12. **UAC –** Gwybodaeth am ddigwyddiadau Brecwast Ffermdy UAC a gynhaliwyd yn ddiweddar. Nodwyd.
13. **Cyngor Tref Caerfyrddin –** Gwahoddiad i'r Cadeirydd i ymuno â'r Parêd Dydd Gŵyl Dewi ar y 1$^{af}$ Fawrth 2025. Nodwyd.
14. **Un Llais Cymru –** Garddwesti Palas Buckingham. Enwebwyd y Cadeirydd i fynychu.
15. **Un Llais Cymru –** Cyfarfod Blynyddol 11$^{fed}$ Mawrth 2025. Enwebwyd y Cadeirydd a Cyng Meinir James i fynychu.
16. **Cylchgrawn Clerks and Councils Direct –** Nodwyd.
17. **Un Llais Cymru –** Dyddiadau hyfforddi Chwefror – Mawrth. Nodwyd.
18. **Banc Barclays –** Datganiadau. Nodwyd.
19. **Parc Solar Heol Ddu** – **Nododd y Cyng Philip Davies ei ddiddordeb yn y mater a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ac ystyriaeth o'r mater. Nododd y Clerc ei ddiddordeb / gwrthdaro buddiannau yn y mater a hysbysodd y Cyngor na allai felly roi unrhyw gyngor ar y mater i aelodau. Allai ond darparu'r weinyddiaeth fel sy'n ofynnol gan y Cyngor ar ei gyfarwyddiadau ar y mater.**

    Llythyr yn cyflwyno Qualitas Energy a Fferm Solar Heolddu, fferm solar panel sefydlog arfaethedig tua 40MW ar dir rhwng Glanyfferi a Llandyfaelog. Roedd y llythyr yn cynnig cyfarfod gyda thîm y prosiect i drafod y prosiect. Bydd y cynnig o gyfarfod yn cael ei dderbyn.

**7. Cae Idole ac Amwynderau Cymunedol**

1. **Ymweliad Cae Chwarae –** Cadarnhaodd y Clerc derbyniad prisiau ar gyfer yr archwiliad blynyddol fel a ganlyn:
    - **Play Inspection Company - £94.95**
    - **Dragon Play - £125.00**
    - **ROSPA - £96.00**

    Cytunwyd i barhau gyda gwasanaethau'r Play Inspection Company.

2. **Mainc yng Nghwmale -** Roedd Atgyweiriwr y Cyngor wedi gosod sylfaen newydd yng Nghwmale ar gyfer y fainc a byddai'n symud mainc Llandyfaelog ar draws er mwyn i Star Forge gael ei disodli.
3. **Cytundeb Torri Gwair 2025 -** Cadarnhaodd y Clerc derbyniad prisiau cytundeb torri gwair 2025 fel a ganlyn:
   - **Wenallt Contracting - £2,350.00**
   - **Wrenvale Nurseries and Landscapes - £4,660.00**
   - **Michael Leefe - £2,415.00**

   Cytunwyd i gadw'r gwasanaethau gan Michael Leefe oherwydd ansawdd y gwaith a ddarparwyd.
4. Nodwyd bod atgyweiriadau wedi'u gwneud i plannwr Croesyceiliog, llochesi bysiau Bancycapel a Chwmffrwd, gyda gwaith i'w gwblhau ar blannwr Pibwrlwyd.

**8. Atgyweiriwr Cymunedol**

Cadarnhaodd y Clerc 28 awr wedi eu gweithio ym mis Ionawr gyda chyfanswm cost o £616.00 yn cael ei gytuno. Cymeradwywyd costau ychwanegol o £114.24 ar gyfer gwaith y manylwyd arno yn eitem 7 uchod.

Cyflwynodd y Clerc dogfennau drafft ar gyfer tendr Atgyweiriwr. Cymeradwywyd y rhain a byddant yn cael eu hysbysebu ar gyfer prisiau i'w hystyried yng nghyfarfod mis Mawrth.

**9. Digwyddiadau Cymunedol 2025**

Trafododd y Cyngor Ddigwyddiadau Cymunedol posibl yn 2025 fel a ganlyn:

- Cystadleuaeth Gerddi;
- Cystadleuaeth Ymdrech Gymunedol.

Bydd y mater yn cael ei ystyried ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

**10. Adroddiad Cynllun Iaith Gymraeg 2024-25**

Cyflwynodd y Clerc yr adroddiad blynyddol drafft i Gomisiynydd y Gymraeg ar gydymffurfiaeth y Cyngor â'i Gynllun Iaith Gymraeg. Cymeradwywyd ac arwyddwyd yr adroddiad gan y Cadeirydd i'w ddychwelyd.

**11. Cynllunio**

1. **Evans Banks Planning - Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio** - Ffurfio Parc Solar yn Tirmably, Croesyceiliog, Caerfyrddin, SA32 8DP. Cytunwyd i ofyn am gyfarfod gyda'r cwmni ac i godi'r materion a ganlyn:
   - Buddiant Cymunedol;
   - Beth oedd y sefyllfa mewn perthynas â chysylltiad â'r Grid Cenedlaethol.

**12. Cyfrifon**
**Cytunwyd y taliadau ganlynol:**

| **1.** | **Disgrifiad** | **Cyflog** | **Costau** | **Cyfanswm Gros** | **Treth wedi tynnu ffwrdd** | **YG wedi tynnu ffwrdd** | **Cyflog Net** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Arfon Davies** | **Cyflog Ionawr a costau** | **£751.49** | **£26.00**<br>**£7.00**<br>**£19.35**<br>**£23.40** | **£828.14** | **£310.20** | | **£517.94** |

2. **Archwilio Cymru** **£200.00** Archwiliad 2023-24
3. **Michael Leefe** **£616.00** Atgyweiriwr Ionawr (gweler eitem 8)

**13. Materion arall a godwyd gan aelodau**

1. Nodwyd bod gwastraff bwyd yn cael ei adael eto ar hyd Heol y Lan a'r ardaloedd cyfagos.
2. Roedd y Clerc wedi codi pyllau dŵr gyda’r Cyngor Sir yng Nghilgadan eto, gyda’r awgrym a godwyd ar greu agoriad yn y palmant i alluogi dŵr i ddianc. Roedd y Cyngor Sir wedi gwneud y gwaith yn dilyn archwiliad pellach.
3. Adroddodd y Clerc fod coeden Nadolig wedi ei thipio'n anghyfreithlon ger Gwynfryn.
4. Adroddodd y Clerc fod angen clirio dyddodion mwdlyd ar y ffordd yn Fforest Uchaf.
5. Bydd y Clerc yn gofyn am Ddigwyddiad Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Cymunedol posibl.
6. Nodwyd cwis er budd Eglwys Llandyfaelog ar gyfer y 7fed Fawrth 2025.
7. Nodwyd bod 3 peilon yn cael eu newid rhwng Llechwdni a Gletwyn.
8. Codwyd pryder ynghylch cyflwr y ffordd ym Mhwll y Baw, gyda'r gwaith nad oedd yn cael ei wneud gan y Cyngor Sir o bosibl yn achosi effaith ar drefniadau angladd. Cytunodd y Cyng Tyssul Evans i wneud ymholiadau ar y mater.
9. Nodwyd Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog ar ddydd Sadwrn Chwefror 8fed 2025.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Iau 6ed Mawrth 2025.**